Ffurflen PEFO 2

Y Comisiwn Etholiadol

# Newid gweinyddwr PEF Ar-lein

Dylech ddarllen y canllaw perthynol cyn cwblhau'r ffurflen hon.

Pwysig

Canllaw perthynol:

- PEF Ar-lein: Cychwyn arni

## Ar gyfer pwy mae’r ffurflen hon:

Pleidiau gwleidyddol cofrestredig, pleidiau bychan, ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn gysylltiedig i blaid (trydydd partïon) ac ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig (cyfranogwyr a ganiateir) sydd eisiau newid eu gweinyddwr PEF Ar-lein.

# Nodiadau eglurhaol

## Adran 1 – Enw'r sefydliad neu unigolyn

Dywedwch wrthym beth yw enw'r sefydliad neu unigolyn sy'n ymddangos ar y gofrestr. Dylai hyn fod yn enw llawn eich plaid wleidyddol, sefydliad ymgyrchu neu sefydliad aelodaeth.

## Adran 2 – Manylion y gweinyddwr PEF Ar-lein

Cwblhewch holl fanylion cyswllt y gweinyddwr a enwebwyd. Mae'r manylion hyn yn feysydd gofynnol yn y gronfa ddata PEF Ar-lein a dim ond os oes gennym yr holl wybodaeth angenrheidiol y byddwn yn gallu prosesu'ch cais.

Mae amodau a thelerau penodol yn berthnasol wrth weithio gyda PEF Ar-lein. Gweler:

- Amodau a thelerau PEF Ar-lein

## Adran 3 – Datganiad gweinyddwr PEF Ar-lein newydd

Rhaid i chi lofnodi a dyddio'r ffurflen i ddweud wrthym eich bod yn derbyn cyfrifoldebau'r rôl newydd.

# Adran 4 – Enwebu gweinyddwr PEF Ar-lein newydd

### Pleidiau gwleidyddol

Rhaid i arweinydd eich plaid, swyddog enwebu, trysorydd ac – os penodir – eich swyddog ymgyrchoedd oll lofnodi'r ffurflen hon i ddangos eu bod yn cytuno i benodiad eich gweinyddwr PEF Ar-lein newydd.

### Pleidiau llai

Rhaid i arweinydd eich plaid a swyddog enwebu ill dau lofnodi'r ffurflen i ddangos eu bod yn cytuno i benodiad eich gweinyddwr PEF Ar-lein.

### Sefydliadau eraill

Os ydych yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n gysylltiedig â phlaid neu'n gymdeithas aelodaeth, rhaid i'ch unigolyn cyfrifol lofnodi'r ffurflen hon.

> Mae dewis eich gweinyddwr PEF Ar-lein yn benderfyniad pwysig. Gweler:
>
> - PEF Ar-lein: Cychwyn arni

## Cwblhau ac anfon y ffurflen atom

Dylai trysorydd y blaid, arweinydd y blaid yn achos plaid lai, neu'r sawl sy'n gyfrifol gwblhau'r ffurflen hon a'i dychwelyd atom.

Gallwch deipio yn uniongyrchol ar y ffurflen a'i hargraffu a'i dychwelyd atom, neu gallwch argraffu'r ffurflen, ei chwblhau â llaw a'i hanfon atom.

Pwysig

Peidiwch â chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig. Mae angen llofnodion am ei bod yn cynnwys datganiadau, felly gallwch naill ai ei phostio neu ei ffacsio atom.

## Dychweler y ffurflen trwy'r post neu ffacs at:

Cyllid Pleidiau ac Etholiadau

Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.uk
Gwefan: www.electoralcommission.org.uk

Defnydd Y Comisiwn Etholiadol:

Y Comisiwn Etholiadol

# Newid gweinyddwr PEF Ar-lein

## Adran 1 Sefydliad neu unigolyn rheoledig

Enw

## Adran 2 Manylion y gweinyddwr PEF Ar-lein

Teitl

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Tref/Dinas

Cod Post

Gwlad

Rhif ffôn

Ffôn symudol

Rhif ffacs

Cyfeiriad e-bost

## Adran 3 Datganiad gweinyddwr PEF Ar-lein

Rwy'n derbyn rôl gweinyddwr PEF Ar-lein ar gyfer yr endid rheoledig a enwir uchod

Llofnodwyd

Dyddiad

## Adran 4 Enwebu gweinyddwr PEF Ar-lein

Rydw i/Rydym ni yn awdurdodi'r unigolyn a enwir uchod i weithredu fel gweinyddwr PEF Ar-lein

Rydw i/Rydym ni yn diddymu unrhyw awdurdodiad blaenorol i unigolyn i weithredu fel gweinyddwr PEF Ar-lein

Rydw i/ Rydym ni yn derbyn amodau a thelerau defnydd o'r system PEF Ar-lein

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw | | Rôl | |
| Llofnodwyd | | Dyddiad | |
| Enw | | Rôl | |
| Llofnodwyd | | Dyddiad | |
| Enw | | Rôl | |
| Llofnodwyd | | Dyddiad | |
| Enw | | Rôl | |
| Llofnodwyd | | Dyddiad | |

Ar ddefnydd Y Comisiwn Etholiadol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad derbyn | | Gwiriwyd gan | |
| Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata | | Rhif cyfeirnod y ffeil | |

## Datganiad Preifatrwydd

Dim ond i gefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni. Byddwn yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a byddwn yn dilyn deddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol amdanoch na'r wybodaeth bersonol y gallwch ddarparu am bobl eraill i unrhyw un arall, heblaw bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Y sail gyfreithiol i gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen yma yw ei bod hi'n hanfodol i ni i gyflawni tasgau a wneir sydd ym mudd y cyhoedd ac i ymarfer awdurdod swyddogol fel y breinir yn y Comisiwn Etholiadol fel sydd yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a rheoliadau cysylltiedig â deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff peth o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu yn ddata personol categori arbennig. Rydym yn ei brosesu am reswm diddordeb sylweddol y cyhoedd, ac mae ganddo sail mewn cyfraith y DU. I brosesu'r math yma o wybodaeth, ma'n rhaid i'r Rheolwr Data gael dogfen bolisi berthnasol sy'n dangos sut fydd y wybodaeth yn cael ei thrin.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data yw Jo Crofton-Diggins (dataprotection@electoralcommission.org.uk).

Mae'r hysbysiad preifatrwydd ar gael yn https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice a gallwch ei ddarllen i weld sut ry'n ni'n prosesu data personol.